# YR ATODLENNI

## ATODLEN 6

Bwydydd anifeiliaid

# RHAN 1

## Cyfyngiadau ar fwydo proteinau i anifeiliaid

### Gwahardd bwydo protein anifeiliaid

**1.**—(1) Mae'n drosedd bwydo i unrhyw anifail cnoi cil neu anifail nad yw'n cnoi cil unrhyw brotein anifeiliaid (neu unrhyw beth sy'n cynnwys protein anifeiliaid) a waherddir gan Erthygl 7 a Phennod I o Atodiad IV mewn perthynas â'r anifail hwnnw.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn is-baragraff (1) yn gymwys i fwydo unrhyw anifail yn unol â Phennod II o Atodiad IV.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau ar symud

**2.**—(1) Pan fo gan arolygydd sail resymol dros gredu bod anifail cnoi cil neu anifail nad yw'n cnoi cil a ffermir wedi ei fwydo ag unrhyw brotein anifeiliaid (neu unrhyw beth sy'n cynnwys protein anifeiliaid), neu wedi cael mynediad ato—

(a) sy'n waharddedig gan Erthygl 7 ac Atodiad IV mewn perthynas â'r anifail hwnnw; neu

(b) na all yr arolygydd ganfod ei darddiad,

caiff yr arolygydd gymryd y camau a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r perchennog neu'r person sydd â gofal am yr anifail, yn unol â rheoliad 16, yn gwahardd neu'n cyfyngu ar symud yr anifail ac yn ei gwneud yn ofynnol ei gadw yn y modd a ddarperir yn yr hysbysiad.

(3) Pan gyflwynir yr hysbysiad mewn cysylltiad ag anifail buchol, rhaid i'r arolygydd—

(a) sicrhau bod ei basbort gwartheg wedi ei stampio "Not for human consumption"; neu

(b) ymafael yn ei basbort gwartheg neu ei gadw, ac mewn achos o'r fath caniateir stampio'r pasbort gwartheg yn y fath fodd cyn ei ddychwelyd.

(4) Mae'n drosedd i draddodi unrhyw anifail i'w gigydda ar gyfer ei fwyta gan bobl neu gigydda unrhyw anifail ar gyfer ei fwyta gan bobl pan fo pasbort gwartheg yr anifail wedi cael ei stampio yn unol ag is-baragraff (3).

### Lladd anifeiliaid

**3.** Pan fo gan arolygydd sail resymol dros gredu bod anifail cnoi cil neu anifail nad yw'n cnoi cil a ffermir wedi ei fwydo ag unrhyw ddeunydd y cyfeirir ato ym mharagraff 2, neu wedi cael mynediad ato, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r perchennog neu'r person sydd â gofal am yr anifail yn unol â rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r person sydd â gofal am yr anifail ladd yr anifail a'i waredu fel a bennir yn yr hysbysiad.

**Digolledu**

**4.**—(1) Pan leddir anifail o dan baragraff 3, caiff Gweinidogion Cymru dalu digollediad os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau, a rhaid iddynt roi'r penderfyniad ynglŷn â thalu digollediad ai peidio mewn ysgrifen.

(2) Mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 11 yn gymwys mewn perthynas â'r penderfyniad.

(3) Y digollediad am—

(a) anifail buchol yw'r gwerth a bennir yn unol â pharagraffau 10 ac 11 o Atodlen 3;

(b) anifail defeidiog neu afraidd yw'r gwerth a bennir yn unol â pharagraffau 15 ac 16 o Atodlen 4; ac

(c) anifail nad yw'n fuchol, yn ddefeidiog nac yn afraidd yw gwerth yr anifail ar y farchnad ar yr adeg y'i lleddir, a bennir yn unol â'r weithdrefn a osodir yn rheoliad 12(3) i (7), gyda'r perchennog yn talu unrhyw ffi a godir ynglŷn â'r prisio.

**Cyfyngu ar fwydydd anifeiliaid anghyfreithlon a'u gwaredu**

**5.** Pan fo arolygydd wedi nodi bwydydd anifeiliaid anghyfreithlon fel rhai yr amheuir eu bod yn cynnwys deunydd a waherddir gan Atodiad IV, caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r perchennog neu'r person sy'n meddu ar y bwydydd anifeiliaid—

(a) i gyfyngu ar fynediad anifeiliaid i'r ardal lle cedwir y bwydydd anifeiliaid;

(b) i atal y bwydydd anifeiliaid rhag cael eu bwydo i anifeiliaid yn gyffredinol, neu i'w hatal rhag cael eu bwydo i'r anifeiliaid hynny a bennir yn yr hysbysiad;

(c) i'w gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r person sy'n meddu ar y bwydydd anifeiliaid eu gwaredu yn unol â'r cyfarwyddiadau a gynhwysir yn yr hysbysiad, gyda derbynnydd yr hysbysiad yn ysgwyddo cost y gwarediad hwnnw.